**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGORCOUNCIL CHAMBER - COUNTY HALL, LLANDRINDOD WELLS, DDYDD IAU, 23 CHWEFRORDYDD IAU, 23 CHWEFROR 2017**

PRESENNOL
Y Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, PJ Ashton, D Bailey, G R Banks, G J Bowker, G Breeze, R G Brown, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, W J Evans, D O Evans, R I George, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, J C Holmes, G Hopkins, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, MC Mackenzie, D Mayor, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, S L Williams, J M Williams and G I S Williams

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir VE Evans, L Fitzpatrick, JG Shearer a DH Williams a’r Prif Weithredwr.

| 2. | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 26 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.

| 3. | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |
|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees fuddiant sy’n rhagfarnu pan godwyd Ystâd Ffermydd y Sir fel rhan o’r drafodaeth ar y gyllideb gan adael y cyfarfod tra oedd yn cael ei thrafod.

Datganodd y Cynghorydd Sir EM Jones fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu pan drafodwyd canolfannau dydd fel rhan o’r drafodaeth ar y gyllideb.

| 4. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion rhai o’r digwyddiadau roedd wedi’u mynychu ers y cyfarfod diwethaf gan gynnwys Gwobrau Chwaraeon Sir Drefaldwyn yn y Drenewydd, Gwobrau Cadetiaid Powys yng Nghrucywel a drama CFfI Sir Faesyfed yn Neuadd Albert, Llandrindod.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Rhoddwyd yr Arweinydd wybod y byddai'n gwneud ei gyhoeddiadau yn y cyfarfod nesaf.

| 6. | TROSGLWYDDIADAU YN DISGWYL CYMERADWYAETH Y CYNGOR |
|---|---|

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried treiglo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer y cyfleuster fflyd yn ei blaen i 2017/18.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a'i basio gan 60 o bleidleisiau i 0 gydag 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf i dreiglo £1,170,000 yn ei flaen i 2017/8.** | **I gwblhau gwerthuso'r dewisiadau arfaethedig, paratoi achos busnes ac adnabod ffynonellau cyllid posibl eraill yn 2017/18 a chydymffurfio â rheoliadau ariannol yr Awdurdod.** |

| 7. | DATGANIAD BLYNYDDOL DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW 2017/18 |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) ar gyfer 2017/18. Hwn oedd y tâl blynyddol roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ei godi at ad-dalu dyledion.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir TJ Van Rees a'i basio gan 55 o bleidleisiau i 6 gyda 3 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Defnyddio cyfrifiad llinell syth 2% ar gyfer DIR mewn cysylltiad â benthyca â chymorth.** | **Gofyniad Statudol** |
| **2. Defnyddio Opsiwn 3, Dull Blwydd-dal Oes Asedau i gyfrifo DIR mewn cysylltiad â benthyca darbodus.** | **Gofyniad Statudol** |
| **3. Defnyddio gweddill gostyngol 2% ar gyfer DIR mewn cysylltiad â Dyled Hanesyddol a Dyled y Setliad i'r Cyfrif Refeniw Tai.** | **Gofyniad Statudol** |
| **4. Defnyddio Opsiwn 3, Dull Blwydd-dal Oes Asedau i gyfrifo DIR mewn cysylltiad â benthyca darbodus i'r** | **Gofyniad Statudol** |

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai.** | |
| **5. Manteisio ar y canllawiau sy'n caniatáu gohirio DIR ar gyfer asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.** | **Paru cost DIR â defnydd ased gan wasanaeth.** |

| 8. | ADRODDIAD Y PANEL CRAFFU ARIANNOL |
|---|---|

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir JG Morris, Cadeirydd y Panel Craffu ar Gyllid, ymateb y Panel i'r gyllideb arfaethedig. Roedd y Panel wedi codi nifer o bryderon gan gynnwys effeithiau targedau arbedion a fethwyd yn y gyllideb bresennol ar gyllideb 2017/18 a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn. Ceisiodd y Panel sicrwydd na fyddai'r gorwariant yng Ngofal Cymdeithasol i Oedolion yn digwydd eto. Roedd y Panel yn ansicr a oedd y gyllideb arfaethedig â therfynau arian parod neu'n cael ei harwain gan y galw. Croesawyd y dull 3 blynedd o ymdrin â'r gyllideb ond roedd y Panel yn poeni am effaith gwneud penderfyniadau y tu allan i'r fframwaith hwnnw. Yn olaf, nododd y Cynghorydd Morris fod y newid diweddar i'r Dreth Gyngor arfaethedig yn gwneud gwaith craffu'n anodd.

Mewn ymateb, diolchodd Deiliad y Portffolio Cyllid i'r Panel am eu gwaith a'u her. Byddai'n gwneud ymateb ffurfiol yn y Cabinet ar 14 Mawrth. Eglurodd y byddai bob amser addasiadau i gyllideb dair blynedd gan gynnwys prisio'r Gronfa Bensiwn gan yr actiwari, y dirywiad mewn cyllidebau ysgolion a'r gorwariant yng Ngofal Cymdeithasol i Oedolion. Cytunodd ei bod yn gostus iawn ailsefydlu cyllidebau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

| 9. | CYLLIDEB AR GYFER 2017-18, STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017-2020 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2017-2021 |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor y Gyllideb ar gyfer 2017/18, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017/2020 a Rhaglen Gyfalaf 2017/2021. (Copi wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion llofnodedig).

Wrth gyflwyno'r gyllideb rhoddodd Deiliad y Portffolio Cyllid wybod, er bod setliad y gyllideb yn well na'r disgwyl, o hyd dyma'r waethaf yng Nghymru, toriad 0.5% mewn cyllid o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cydnabu fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi gwrando ar sylwadau'r Cyngor ynglŷn â chostau ychwanegol darparu gwasanaethau mewn ardal wledig, gan ddyrannu £1.5m yn ychwanegol. Atgoffodd yr Aelodau mai dim ond hanner y ffordd drwy'r rhaglen arbedion oedd y Cyngor, gyda £65m o doriadau eisoes wedi'u gwneud ac y byddai cyni'n parhau tan 2027.

Amlinellodd Deiliad y Portffolio strategaeth y Cabinet gan egluro'r penderfyniadau polisi oedd yn gofyn addasiadau i'r gyllideb. Esboniodd ymagwedd y strategaeth sef tynnu risg o'r gyllideb a mynd i'r afael â'r gorwariant yng nghyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion drwy sefydlu cronfa wrth gefn. Bu hefyd yn amlygu'r symiau a ychwanegir at y gyllideb er mwyn osgoi gorfod cyflwyno casgliad gwastraff gweddilliol bob 4 wythnos, cadw 5 Canolfan

Ailgylchu Gwastraff y Cartref, achub canolfannau hamdden Trefyclo a Llanfair Caereinion a chadw canolfannau gofal dydd yn agored am flwyddyn arall wrth sefydlu ffyrdd eraill o ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddodd wybod i'r Cyngor fod is-grŵp o'r Cabinet wedi edrych ar asesiadau effaith ar gyfer pob un o'r arbedion arfaethedig, gan ddychwelyd y rheini nad oedd yn lliniaru risgiau a nodwyd.

Eglurodd Deiliad y Portffolio Cyllid, ers i'r Cabinet gyfarfod 7 Chwefror i wneud ei argymhellion i'r Cyngor, fod gwaith wedi parhau i fireinio'r gyllideb gan arwain at leihad pellach o £400,000 sy'n golygu bod y Cabinet yn argymell Treth Gyngor is o 3.90%.

Atebodd Deiliad y Portffolio Cyllid ac aelodau o'r Cabinet gwestiynau gan Aelodau. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi cael trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cabinet ac Aelodau Cynulliad lleol ynglŷn â setliad y Cyngor. Rhoddodd arweinwyr grwpiau'r Democratiaid Rhyddfrydol, Llafur a'r Ceidwadwyr wybod na fyddai eu grwpiau'n cefnogi cynigion y gyllideb. Ni dderbyniodd Deiliad y Portffolio Cyllid sylwadau gan arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol nad oedd y Cabinet yn rheoli'r gyllideb yn iawn, gan nodi bod gwarged o £3 miliwn yn ystod y 2 flynedd diwethaf. Dywedodd arweinydd y grŵp Llafur, er yn croesawu'r gwelliant yn yr asesiadau effaith, y byddai'r rhaglen gyni barhaus yn golygu tranc gwasanaethau llywodraeth leol. Dadleuodd arweinydd grŵp y Ceidwadwyr mai'r Dreth Gyngor leiaf fforddiadwy yng Nghymru oedd gan Bowys.

Cynigiwyd Argymhelliad 1 yn adroddiad Deiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas a'i basio gan 35 o bleidleisiau i 22 gydag 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cytuno mewn egwyddor ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2017 hyd at 2020 fel a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.** | **I helpu cynllunio busnes a datblygu'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd** |

Cynigiwyd Argymhelliad 2 yn yr adroddiad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas a'i basio gan 37 o bleidleisiau i 25.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2017/18 a ddangosir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad 2.** | **Gofyniad statudol** |

Cynigiwyd Argymhelliad 3 yn yr adroddiad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas a'i basio gan 49 o bleidleisiau i 11.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a ddangosir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.** | **Gofyniad statudol** |

Cynigiwyd Argymhelliad 4 fel a ddiwygiwyd gan yr hysbysiad o newid i gynnig y gyllideb a gynhwysir yn yr agenda atodol gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas a'i basio gan 35 o bleidleisiau i 26.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo codiad o 3.90% yn y Dreth Gyngor.** | **Mae Gofyniad Statudol i osod y Dreth Gyngor ond mater i'w benderfynu'n lleol yw'r lefel.** |

Cynigiwyd Argymhelliad 5 yn yr adroddiad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas a'i basio gan 49 o bleidleisiau i 11.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r terfyn benthyca awdurdodedig ar gyfer 2017/18 fel sy'n ofynnol o dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003 ar £452.7 miliwn fel a nodir ym mharagraff 9.9 yr adroddiad.** | **Gofyniad statudol** |

Cynigiwyd Argymhelliad 6 yn yr adroddiad gan Ddeiliad y Portffolio Cyllid a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas a'i basio gan 48 o bleidleisiau i 10.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r dangosyddion darbodus ar gyfer 2017/18 fel a nodir yn adran 9 yr adroddiad ac Atodiad 5.** | **Gofyniad statudol** |

Torrodd y Cyngor am 13.26 gan ailymgynnull am 14.15.

PRESENNOL
Y Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, PJ Ashton, D Bailey, G R Banks, G J Bowker, G Breeze, R G Brown, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, W J Evans, D O Evans, R I George, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, J C Holmes, G Hopkins, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, MC Mackenzie, D Mayor, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, S L Williams, J M Williams and G I S Williams

| 10. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORYDD SIR PETER MEDLICOTT A'R CYNGHORYDD SIR MICHAEL WILLIAMS |
|---|---|

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir PJ Medlicott a'i eilio gan y Cynghorydd Sir JM Williams

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gyngor Sir Powys i wrthwynebu cau Banc HSBC yn Nhrefyclo a chau banciau eraill a sefydliadau tebyg mewn trefi a chymunedau bach.

Wrth gefnogi'r cynnig nododd cynghorwyr effaith colli cyfleusterau o'r fath ar drefi a chymunedau bach yn y sir.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais a'i basio gan 51 o bleidleisiau i 0.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor Sir yn gwrthwynebu cau banc HSBC yn Nhrefyclo a chau banciau eraill a sefydliadau tebyg mewn trefi a chymunedau bach.**

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG - Y CYNGHORYDD SIR STEPHEN HAYES A'R CYNGHORYDD SIR KATH ROBERTS-JONES |
|---|---|

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir SM Hayes a'i eilio gan y Cynghorydd Sir KM Roberts-Jones

Bod y Cyngor yn ystyried a yw'n dymuno hybu neu gefnogi digwyddiadau priodol i ddynodi 750 mlwyddiant cytundeb hanesyddol Trefaldwyn ym mis Medi 2017 ac os felly sut.

Eglurodd y Cynghorydd Hayes arwyddocâd hanesyddol a chenedlaethol y Cytundeb fel yr unig dro i Dywysog Cymru o dras Gymreig gael ei gydnabod yn ffurfiol gan Frenin Lloegr. Gofynnodd fod y Cyngor yn cael caniatâd i ymgysylltu â Phartneriaeth Twristiaeth Maldwyn i gefnogi digwyddiadau. Cadarnhaodd Deiliad y Portffolio Adfywio a Chynllunio ei fod yn hapus i staff o'r adran Adfywio gynorthwyo.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais a'i basio gan 50 o bleidleisiau i 0.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn hybu a chefnogi digwyddiadau priodol i nodi 750 mlwyddiant cytundeb hanesyddol Trefaldwyn ym mis Medi 2017.**

| 12. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

**12.1 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Adfywio a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi, fel rhan o'r trydydd cyfnod o Gronfa Fenthyciadau Canol Trefi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, mae benthyciad o £1,000,000 ar gyfer gweithgareddau arfaethedig yn Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd wedi'i gynnig i'r Cyngor.**
**A wnaiff y Cabinet ddarparu manylion i'r Cyngor ynglŷn â sut y bydd yn defnyddio'r cyllid, pa brosiectau yn Aberhonddu a fydd yn cael eu cefnogi a sut bydd yn ymgysylltu ag aelodau lleol i adnabod blaenoriaethau?**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Tony Thomas, Deiliaid y Portffolio Adfywio a Chynllunio*
*Mae'r Cyngor eisoes yn gweinyddu cynllun benthyca i ganol trefi drwy'r Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Ariennir y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y benthyciadau gan fusnesau preifat a leolir yng nghanol trefi i wella'r eiddo y maent yn berchen arno ac felly helpu i adfywio'r tri chanol tref dan sylw. Pwrpas y cyhoeddiad newydd hwn yw 'ail-lenwi i'r ymyl' fenter sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Gweinyddir y benthyciadau gan Adran Dai'r Cyngor.*
*Yn wreiddiol, dim ond i fusnesau yn Llandrindod a'r Drenewydd yr oedd y cynllun hwn ar gael ond mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ei estyn i Aberhonddu sy'n newydd da i'r sir ac rydym yn ei groesawu. Ar ben hynny, mae'r cyllid diweddaraf hwn yn gadael i eiddo ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol gael ei dargedu gan roi mwy o hyblygrwydd cyffredinol i ni. Bydd nifer o gynlluniau yn Aberhonddu lle gellir defnyddio'r cynllun benthyciadau hwn i hybu adfywio'r dref.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance am ba gynlluniau yn Aberhonddu oedd wedi derbyn cyllid dyranedig, rhoddodd Deiliad y Portffolio Adfywio a Chynllunio wybod nad oedd cyllid eto wedi'i ddyrannu i unrhyw gynlluniau ond y byddai'n croesawu trafodaethau ag aelodau lleol am gynlluniau posibl.

**12.2 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Gyllid gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Mae cronfa i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu parcio am ddim yng nghanol trefi wedi'i chytuno arni gan Lywodraeth Lafur Cymru. A wnaiff y Cabinet fanylu ar sut mae'n bwriadu darparu parcio am ddim i Bowys?**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones, Deiliad y Portffolio Cyllid.*
*Nid yw'n gywir dweud bod cronfa wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfleusterau parcio ceir am ddim ac mae'n amlwg bod rhywfaint o ddryswch mewn perthynas â setliad cyllid Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer y flwyddyn 2017/18. O fewn setliad cyffredinol Llywodraeth Leol Cymru, roedd £3 miliwn o gyllid wedi'i gynnwys (ac yma dyfynnaf o'r datganiad a wnaethpwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford), 'i gefnogi parcio yng nghanol trefi'. Fodd bynnag, NID oedd y cyllid, yn yr un modd*

*â'r holl gyllid a gynhwysir yn y setliadau i Gynghorau yng Nghymru, wedi'i bridiannu.*

*Gan symud felly at sefyllfa Cyngor Sir Powys, y swm yn y setliad oedd £138,000 (heb ei bridiannu) mewn dyfarniad ariannu oedd yn gyfwerth â thoriad 0.5% yn y cyllid cyffredinol. Ar ben hynny, roedd toriadau i grantiau penodol eraill gan gynnwys toriad 6.7% i'r Grant Amgylchedd Sengl sy'n mynd at gynnal ein gwasanaeth ailgylchu.*

*Yn yr un modd â phob Cyngor yng Nghymru, nid yw Cyngor Sir Powys yn gwario'i ddyraniad cyllid yn unol â'r Asesiad o Wariant Safonol a blaenoriaethau lleol sy'n penderfynu'r gwariant ym mhob maes. Ym Mhowys, rydym ar hyn o bryd yn gwario dros yr Asesiad o Wariant Safonol mewn sawl maes blaenoriaeth allweddol megis Addysg a Gofal Cymdeithasol i Oedolion.*

*Fe wnaeth y Cabinet benderfyniad, a gefnogwyd gynt gan y Cyngor, i ddatblygu ffrwd incwm i ddod â chyllid ychwanegol i mewn a fyddai'n bwysig i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a gwerthfawr yn y cyfnod hwn o gyni parhaus (ymagwedd sydd hefyd yn cael ei chefnogi gan adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru). Mae'r taliadau parcio ceir yn chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi cyllid cyffredinol y Cyngor. O ganlyniad, teimlai'r Cabinet nad oedd yn gwneud fawr o synnwyr dyrannu £138,000 tuag at wneud gostyngiad bach iawn mewn taliadau parcio ceir ar adeg pan oedd blaenoriaethau mwy o lawer megis Addysg a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ar ben hynny, teimlai'r Cabinet y dylid rhoi blaenoriaeth uwch o lawer i faterion eraill gan gynnwys ceisio achub Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a lliniaru'r toriad i'r Grant Amgylchedd Sengl, lle y byddai'r toriad o £240,000 yn y grant fel arall wedi arwain yn ddi-os bron at orfodi ystyried symud at gasgliad gwastraff gweddilliol bob 4 wythnos o'r trefniad presennol, sef bob 3 wythnos.*

*O ran taliadau parcio ceir, fe'u codwyd ddiwethaf yn 2015 ac yn ôl y cylch 3 blynedd cytunedig, maent i fod i gael eu hadolygu eto yn 2018. Fel rhan o'r ystyriaeth a amlinellir uchod, nid yw'r Cabinet wedi dwyn gerbron unrhyw gynigion i gynyddu taliadau parcio ceir ar gyfer 2018 yn y gyllideb hon (serch unrhyw benderfyniadau blaenorol sydd yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd).*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance a fyddai Deiliad y Portffolio'n ystyried gwahanol gyfraddau codi tâl, gan gynnwys peidio â chodi am yr awr gyntaf, eglurodd Deiliad y Portffolio Cyllid fod y Cabinet wedi gwneud penderfyniad gwleidyddol i beidio â defnyddio'r swm yma at barcio ceir oherwydd nid yw ond yn gyfwerth â 10c oddi ar y taliadau presennol pan oedd blaenoriaethau mwy ym meysydd Addysg a Gofal Cymdeithasol i Oedolion i fynd i'r afael â nhw.

**12.3 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Addysg gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

**Disgyblion ysgol yn cael ei gynnwys fel rhan o'i Chyllideb Ddirprwyedig ac felly yn gorfod cydymffurfio â Chynllun Powys ar gyfer Ariannu Ysgolion?**

**Mae Deiliad y Portffolio Addysg wedi rhoi'r ateb canlynol:**

**"Mae'r grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei gynnwys fel rhan o gyllideb ddirprwyedig ysgol a rhwymir yr ysgol gan delerau ac amodau'r grant a'r Cynllun Ariannu Ysgolion sy'n cynnwys y canllawiau canlynol ynglŷn â grantiau:**

**2.12 Grantiau a chronfeydd canolog**

**Mae'r Awdurdod wedi'i awdurdodi i sicrhau bod symiau ar gael i ysgolion o'r cronfeydd canolog, ar ffurf dyraniadau sy'n ychwanegol at ac sydd ar wahân i gyfrannau ysgolion o'r gyllideb. Bydd dyraniadau o'r fath yn ddarostyngedig i amodau sy'n nodi'r diben neu ddibenion y gall yr arian gael ei ddefnyddio iddo/iddynt, ac, er nad oes raid i'r amodau hyn eithrio trosglwyddiad (heblaw lle cefnogir y cyllid gan grant penodol na chaniateir i'r Awdurdod ei hun ei drosglwyddo), ni ddylid mynd â hwn cyn belled â chymhathu'r dyraniadau i gyfran yr ysgol o'r gyllideb.**

**Mae'n ofynnol i ysgolion gynnal eu cofnodion cyfrifyddu yn y fath fodd fel y gallant ddangos y cydymffurfiwyd, lle bo'n briodol, â'r gofyniad i wario dim ond ar y diben y mae cyllid yn cael ei roi iddo a pheidio â'i drosglwyddo i'w cyfran o'r gyllideb."**

**Felly, a allaf ofyn i Ddeiliad y Portffolio Addysg gadarnhau, oherwydd bod y Grant Amddifadedd Ysgolion yn cael ei gynnwys fel rhan o gyllideb ddirprwyedig ysgol, fod rhaid iddi hefyd gydymffurfio â rheoliad 5.2 y cynllun ariannu ysgolion ac felly ni all ddefnyddio'r arian i ddarparu trafnidiaeth i'r ysgol?**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Arwel Jones, Deiliad y Portffolio Addysg*
*Fel a nodwyd yn y cynllun ariannu ysgolion, mae'r adran a ddangosir isod, 2.12 Grantiau a chronfeydd canolog, yn nodi y dylai arian a dderbynnir drwy'r gyllideb ddirprwyedig mewn cysylltiad â grantiau gydymffurfio ag adran 2.12 y cynllun, a dylai'r cronfeydd grant dirprwyedig gael eu gwario yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Mae Adran 5.2 y cynllun ariannu ysgolion a thelerau ac amodau'r grant amddifadedd disgyblion yn caniatáu gwario ar drafnidiaeth gweithgarwch ysgolion mewn rhai achosion ond nid ar wasanaethau a ddarperid fel arfer gan yr awdurdod megis trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol.*

*"2.12 Grantiau a chronfeydd canolog*

*Mae'r Awdurdod wedi'i awdurdodi i sicrhau bod symiau ar gael i ysgolion o'r cronfeydd canolog, ar ffurf dyraniadau sy'n ychwanegol at ac sydd ar wahân i gyfrannau ysgolion o'r gyllideb. Bydd dyraniadau o'r fath yn ddarostyngedig i amodau sy'n nodi'r diben neu ddibenion y gall yr arian gael ei ddefnyddio iddo/iddynt, ac, er nad oes raid i'r amodau hyn eithrio trosglwyddiad (heblaw lle cefnogir y cyllid gan grant penodol na chaniateir i'r Awdurdod ei hun ei drosglwyddo), ni ddylid mynd â hwn cyn belled â chymhathu'r dyraniadau i gyfran yr ysgol o'r gyllideb.*
*Mae'n ofynnol i ysgolion gynnal eu cofnodion cyfrifyddu yn y fath fodd fel y gallant ddangos y cydymffurfiwyd, lle bo'n briodol, â'r gofyniad i wario dim ond ar y diben y mae cyllid yn cael ei roi iddo a pheidio â'i drosglwyddo i'w cyfran o'r gyllideb."*

*Mae'n ofynnol i ysgolion gyfrif am unrhyw gyllid grant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a/neu ddiwedd y dyraniad cyllid penodol. Rhaid dychwelyd cyllid grant i'r Awdurdod os nad yw wedi'i wario yn ystod y flwyddyn neu'r cyfnod y caniateir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid, os yn wahanol.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Price oedd, "A yw Deiliad y Portffolio yn fodlon ar y penderfyniad dirprwyedig a wnaeth 8 Tachwedd i ganiatáu i ysgol yng ngogledd y sir ddefnyddio ychydig o'i grant amddifadedd disgyblion i brynu minibws o dan gynllun y grant amddifadedd a'r cynllun ariannu ysgolion?" Yn absenoldeb Deiliad y Portffolio Addysg byddai'r Arweinydd yn trefnu i ymateb gael ei baratoi a'i gylchredeg i'r holl aelodau.

## 12.4 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Gyllid gan y Cynghorydd Sir Gary Price

**A all Deiliad y Portffolio Cyllid ddweud wrthyf beth fu'r cynnydd canrannol yn y Dreth Gyngor a'r cynnydd cyfartalog ym Mand D gyda'i gilydd dros dymor y Cyngor hwn?**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones, Deiliad y Portffolio Cyllid.*

*Drwy hyn rwyf yn darparu'r atebion y gofynnwyd amdanynt a hefyd wedi cynnwys er gwybodaeth ffigyrau cyfartalog Cymru.*

1. *Codiadau yn y Dreth Gyngor.*

| | *2012/13* | *2013/14* | *2014/15* | *2015/16* | *2016/17* | *Cyfanswm 5 mlynedd.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Powys* | *2.25%* | *2.75%* | *4.5%* | *4.00%* | *4.25%* | *17.75%* |
| *Cyfart. Cymru* | *1.92%* | *2.90%* | *4.24%* | *4.35%* | *3.65%* | *17.06%* |

2. *Codiadau yn ymwneud ag Eiddo Band D.*

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Powys* | *£20.60* | *£25.75* | *£43.29* | *£40.22* | *£44.44* | *£174.30* |
| *Cyfart. Cymru* | *£18.24* | *£28.06* | *£42.28* | *£45.33* | *£39.38* | *£173.29* |

3. *Cyfanswm y Dreth Gyngor ar gyfer Eiddo Band D.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Powys* | *£936.36* | *£962.11* | *£1005.40* | *£1045.62* | *£1090.06* |
| *Cyfart. Cymru* | *£972.24* | *£1000.40* | *£1042.58* | *£1087.91* | *£1127.40* |

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

## 12.5 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Lyfrgelloedd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

**Mae cryn bryder a dryswch yn lleol ynglŷn â chyllid i'r gwasanaethau Llyfrgell gan y Cyngor yn y dyfodol.**

**Ni waeth pwy sydd i'w rhedeg a lle maent yn cael eu lleoli, a allwch gadarnhau lefel yr ariannu a dderbynnir gan y gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol gan y Cyngor mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol, ac am ba hyd**

**y bydd hyn yn cael ei gynnal? Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw Cynghorau Tref a grwpiau cymunedol yn cael eu hannog i gyfrannu i redeg y llyfrgelloedd gan fod angen gwarantau arnynt fod Powys yn ymrwymedig i gynnal y ddarpariaeth leol statudol a hanfodol yma.**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Graham Brown, y Deiliad Portffolio â chyfrifoldeb am Lyfrgelloedd*
*Bydd yr aelodau'n ymwybodol wrth weithio yn ystod 2016 fod y Gwasanaeth Llyfrgell yn chwilio am ffyrdd newydd o weithio, yn seiliedig ar y rheidrwydd i sicrhau gostyngiad o £250,000 yn y gyllideb, wedi'i daenu dros 2017-18 a 2018-19. Wrth nodi ffyrdd posibl o gyflawni hyn, cefnogodd y Cabinet ddull cymunedol o gadw'r llyfrgelloedd cangen. O ganlyniad, bu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn cydweithio â chynghorau tref a chymuned ac eraill drwy gydol 2016 i sicrhau dyfodol hirdymor y llyfrgelloedd lleol hyn, gydag atebion lleol bellach wedi'u sicrhau ar gyfer pob cangen bron.*

*Wrth dderbyn adborth rheolaidd ar yr anawsterau ac amserlenni hirfaith wrth gyflawni mentrau lleol o'r fath, roedd y Cabinet yn ymwybodol mai her sylweddol iawn oedd cyflawni newidiadau a chydleoli bob un o'r 11 o lyfrgelloedd cangen erbyn mis Ebrill 2017.*

*Mae cynigion y gyllideb bellach yn adlewyrchu'r angen i wneud arbedion ond hefyd i sicrhau y gall y Gwasanaeth gael ei ddarparu a'i gynnal ac, fel y cyfryw, mae'r targedau'n adlewyrchu gostyngiad o £0 yn y gyllideb yn 2017-18 a £125,000 o ostyngiad yn y gyllideb yn 2018-19.*

*O ran cynaliadwyedd ymrwymiadau ar y cyd rhwng Cynghorau Tref a Chymuned a'r Cyngor Sir, mae cynigion newydd y gyllideb yn gwneud ymgais go iawn i wneud hyn yn fwy cynaliadwy, ond bellach mater i'r Cyngor a Chabinet newydd i'w gwblhau ar ôl mis Mai fydd ariannu hirdymor.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe oedd gofyn a fyddai Deiliad y Portffolio'n ystyried adolygu cyllidebau'r llyfrgelloedd fel y byddai pob cymuned yn cyfrannu i'r arbedion ac nid y rheini yn unig yr effeithir arnynt gan y cynigion presennol. Eglurodd Deiliad y Portffolio y byddai hyn yn golygu dadwneud trafodaethau'r 2 flynedd diwethaf. Nododd fod rhwydd hynt i gynghorau gydweithio gan gyfeirio at yr enghraifft o Gyngor Tref Llanfyllin yn cytuno ar gyfraniadau ariannol gan gynghorau cymuned cyfagos.

12.6 **Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Gyllid gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**.

**Fel cyngor rydym yn gorfod talu ardrethi annomestig ar ein hadeiladau ac o dan y rheolau presennol nid ydym, yn yr un modd â chynghorau tref a chymuned, yn gallu gwneud cais am ryddhad ardrethi ar ein heiddo: mae hyn yn berthnasol i elusennau a sefydliadau dielw yn unig.**
**Cesglir ardrethi annomestig ar ran Llywodraeth Cymru. Y ffigyrau ar gyfer 2016/17 (y flwyddyn gyfredol) yw y byddwn yn casglu £28.1 miliwn ac yn derbyn swm ailddosbarthu o £40.5 miliwn.**

**Mae preswylydd wedi dod i gysylltiad â fi gan godi pryderon am gynigion y cyngor i drosglwyddo adeiladau i gynghorau tref a chymuned ac mae wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â'r ardrethi annomestig.**

**Bydd y Cyngor Sir yn nodi arbedion yn y llinell wariant ar gyfer costau rhedeg drwy symud yr ardrethi annomestig drosodd i gynghorau tref a chymuned. Wrth wneud hyn, mae'r Cyngor yn dal i dderbyn ailddosbarthiad o'r gronfa gan Lywodraeth Cymru ac felly bydd ganddo linell wariant arall sy'n derbyn cymorth gan roi'r argraff bod gan CSP ddwy linell arbedion o fewn y gyllideb.**

**Mae hyn ar draul cymunedau lleol y disgwylir iddynt ariannu'r ardrethi annomestig drwy braesept eu cynghorau tref neu gymuned. O ganlyniad, crëir yr argraff bod cymunedau lleol sy'n cymryd drosodd wasanaethau lleol mewn ardaloedd gwledig yn cael eu trethu ddwywaith gan eu bod yn gorfod talu'r dreth gyngor a'r dreth gymuned – dyma sy'n digwydd pan fydd y Cyngor yn canoli gwasanaethau i brif drefi ein sir megis gwasanaethau llyfrgell ac yn y blaen heb ofyn i'w cynghorau cymuned gyfrannu gan adael i'r cymunedau llai wneud hynny.**

**A all Deiliad y Portffolio friffio'r Cyngor ynglŷn â sut gallai'r Cyngor gynorthwyo cymunedau sy'n dymuno cymryd drosodd wasanaethau sy'n ddarostyngedig i ardrethi annomestig?**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones, Deiliad y Portffolio Cyllid*
*Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gosod ardrethi annomestig yng Nghymru. Y cynghorau sir sy'n casglu'r ardrethi annomestig yn eu hardaloedd ar ran Llywodraeth Cymru ac ar ôl hynny mae cyfran o'r ardrethi'n cael ei hailddosbarthu i'r awdurdodau lleol fel elfen o'r setliad ariannu blynyddol. Ym Mhowys ar hyn o bryd rydym yn casglu £28.1 miliwn gan dderbyn fel rhan o'r ailddosbarthiad £40.5 miliwn yn ôl o fewn ein setliad sy'n golygu mai 'enillydd net' sylweddol yw Cyngor Sir Powys o dan y system gyfredol.*

*Rydym wedi trosglwyddo nifer o adeiladau i sefydliadau megis ymddiriedolaethau lleol neu sefydliadau elusennol ac oherwydd eu statws dielw mae'r sefydliadau hyn yn gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu nad cost y mae'n rhaid iddynt ei thalu mo hon. Enghraifft dda o adeiladau o'r fath yw'r holl ganolfannau cymunedol sydd wedi'u trosglwyddo o dan y polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.*

*Fodd bynnag, awdurdodau sy'n codi praesept yw cynghorau tref a chymuned ac felly nid ydynt yn gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi annomestig. O ganlyniad, rhaid i'r costau ardrethi (a chostau perthnasol eraill) gael eu cyfrif wrth ystyried trosglwyddiad eiddo posibl. Mae'r adeiladau hyn, sydd yn aml yn cynnig gwerth cyfalaf sylweddol, gan amlaf yn cael eu trosglwyddo gan y Cyngor Sir am swm ariannol enwol. Ac felly byddai'n rhaid wrth amgylchiadau anghyffredin i gyfiawnhau rhoi grant tuag at gostau rhedeg yn ogystal.*

*O dan rai amgylchiadau, gall cynghorau tref/cymuned roi adeiladau sydd wedi'u trosglwyddo mewn ymddiriedolaeth neu greu elusen gofrestredig ac wedyn gellir hawlio rhyddhad rhag talu ardrethi annomestig.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe oedd a all Deiliad y Portffolio gadarnhau bod ardrethi annomestig yn cael eu cyfrif mewn dwy linell yn y gyllideb, y naill yn yr alldaliadau ar gyfer y dreth gyngor a'r llall fel swm a ddychwelir yn sgil ailddosbarthiad Llywodraeth Cymru ac y bydd rhaid i gynghorau tref a chymuned

sy'n ymgymryd â gwasanaethau eu hariannu drwy eu treth gyngor? Eglurodd Deiliad y Portffolio Cyllid y byddai cynghorau tref a chymuned sy'n ymgymryd â chyfleusterau'n gorfod rhoi sylw dyledus i'r costau y byddai'n rhaid iddynt eu talu wrth redeg y cyfleusterau.

**12.7 Cwestiwn i Aelod Portffolio'r Cabinet dros Wasanaethau Oedolion a Phlant gan y Cynghorydd Sir Gemma Bowker**

**A allai Deiliaid y Portffolios Gwasanaethau i Oedolion a Phlant ddarparu manylion ynglŷn â lefel statudol niferoedd staff y tu allan i oriau a'r patrymau staffio a ddefnyddir gan CSP y tu allan i oriau; a rhoi gwybod a fu unrhyw achlysuron dros y 12 mis diwethaf pan oedd niferoedd y staff wedi disgyn islaw lefelau statudol neu ddiogel?**

*Ateb gan y Cynghorydd Sir Graham Brown, Deiliad y Portffolio Gwasanaethau Plant a'r Cynghorydd Sir Stephen Hayes, Deiliad y Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion*
*Mae gan Gyngor Sir Powys ddyletswydd statudol i ddarparu Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau; fodd bynnag, nid oes gofyniad statudol penodedig mewn cysylltiad â chapasiti'r gwasanaeth hwnnw heblaw y byddai angen i'r Cyngor fedru diwallu'r angen lleol.*
*Gall defnyddwyr y gwasanaeth, aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr asiantaethau eraill gysylltu â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng drwy Linell Ofal Cyngor Sir Powys rhwng:*

- *4.45yp a 8.30yb ar ddydd Llun tan ddydd Iau*
- *4.15yp a 8.30yb ar ddydd Gwener*
- *8.30yb tan 8.30yb ar ddydd Sadwrn, Sul a Gwyliau Banc*

*Mae pob sifft yn cael ei staffio gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy/gweithwyr cymdeithasol, y naill dros ogledd a'r llall dros dde'r sir. Bydd gweithwyr yn cyflenwi dros ei gilydd fel bo angen, yn ôl y galw/blaenoriaethau mewn unrhyw sifft benodol. Os bydd angen cymorth ychwanegol, at ei gilydd ceir hyd iddo o fewn y tîm presennol neu os bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer tasgau neu weithgareddau cynlluniedig penodol na fyddent fel arfer yn syrthio i gylch gorchwyl y Tîm Dyletswydd Argyfwng eid ati i gael hyd i'r adnodd dan sylw yn rhywle arall. Pe bai achos lle bydd gweithwyr y Tim Dyletswydd Argyfwng yn ystyried nad oes gan y gwasanaeth y capasiti angenrheidiol ar unrhyw adeg benodedig ac mae risg wedi'i hadnabod i ddarparu'r gwasanaeth, byddai hyn yn cael ei uwchgyfeirio'n syth at Bennaeth y Gwasanaeth/Uwch Reolwyr (Plant ac Oedolion) sydd ar alw am gyngor a chefnogaeth y tu allan i oriau ar rota.*

*Nid yw'r gwasanaeth wedi profi unrhyw achosion yn ystod y 12 mis diwethaf lle ystyrid na fedrodd ddarparu yn unol â'r gofynion o ganlyniad i wasanaeth anniogel.*

Dywedodd Deiliad y Portffolio y byddai'n trefnu i ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Bowker ynglŷn â beth oedd yn cael ei wneud i wella gofal y tu allan i oriau o ganlyniad i integreiddio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac a yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol eisoes yn cydweithio ar wasanaethau y tu allan i oriau gael ei ddrafftio a'i gylchredeg i aelodau.

**12.8 Question to the Leader from County Councillor Gwynfor Thomas**

**Ym mis Mehefin 2014, comisiynwyd adroddiad gan yr adran addysg i hyfywdra ariannol ysgolion uwchradd.**
**Cwblhawyd yr adroddiad hwn gan PWC.**
**Atodiad 1 – sylwebaeth ar ysgolion unigol – yn cynnwys tablau sy'n amlinellu gwybodaeth ariannol benodol am bob ysgol o 2011/12 drwodd i 2017/18.**
**Ceir llinell glir yn dangos costau trafnidiaeth a'r defnydd o gyllideb yr ysgol gan bob ysgol wrth ddarparu trafnidiaeth i ddisgyblion sy'n ei mynychu.**
**Mae'r hyn oedd pob ysgol yn gwario'i chyllideb arno ar y pryd a'r hyn a ragwelid iddi wario'i chyllideb arno'n glir iawn.**
**Fel Arweinydd darllenoch yr adroddiad hwn a'i ddeall, mae'n siŵr gen i.**
**Gyda'r atodiad yn amlinellu sut roedd cyllidebau ysgolion yn cael eu defnyddio gan bob ysgol ar drafnidiaeth pam na wnaethoch chi godi pryderon am ddefnydd Ysgol Uwchradd Llanfyllin o'u cyllideb ar drafnidiaeth ysgol ar ôl 2011/2012 – ar ôl i Reoliad 5.2 gael ei weithredu'n llawn?**

*<u>Ateb gan Arweinydd y Cyngor 19 Hydref 2016</u>*
*Yng ngoleuni materion a godwyd yng Ngwrandawiadau Apêl Llywodraethwyr yr AALl mewn cysylltiad ag adroddiad PWC, dw i wedi trefnu i Mr Jonathan Walters, yr Ymchwilydd Annibynnol, ystyried perthnasedd (os o gwbl) adroddiad PWC i'w ymchwiliad. O dan yr amgylchiadau, nid wyf yn ystyried ei bod yn briodol darparu ymateb i'ch cwestiwn i chi tan ba amser bynnag y daw ffrwyth ymchwiliadau Mr Walters i law.*
*Mi drefnaf i'ch cwestiwn gael ei ymgorffori yn yr Agenda ar gyfer Cyfarfod Llawn cyntaf y Cyngor ar ôl i'r adroddiad pellach gan Mr Walters fod ar gael.*

*<u>Ateb gan Arweinydd y Cyngor 23 Chwefror 2017</u>*
*Derbyniais yr adroddiad, fel yr holl Gynghorwyr Sir eraill, drwy e-bost ym mis Hydref 2014. Er gwybodaeth roedd hwn.*

*Rwyf yn atodi copi o dudalen 23 adroddiad PWC sy'n nodi:-*

*"Mae trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol i bob disgybl yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan y Cyngor, gydag ysgolion yn ariannu trafnidiaeth ar gyfer teithiau addysgol ac allgyrsiol yr ysgol yn unig. Fodd bynnag, ceir anghysondeb o ran adennill costau teithiau ysgol ymhlith yr ysgolion. Nid yw rhai ysgolion yn codi tâl ar ddisgyblion tra bydd eraill yn gofyn am gyfraniadau".*

*Yr adeg honno, nid oeddwn yn amgyffred goblygiadau'r llinell yn adroddiad PWC yn dangos cynnydd yng nghostau trafnidiaeth Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae'r adroddiad gan Jonathan Walters yn casglu na chodwyd ar y mater gan neb ar y pryd, nid hyd yn oed gennych chi'ch hun na chan Lywodraethwyr eraill yr AALl yn yr ysgol. Ar ben hynny, ni ddaethoch chi na Llywodraethwyr eraill yr AALl yn ymwybodol o arwyddocâd posibl adroddiad PWC tan ar ôl dyddiad ei adroddiad cyntaf, er gwaetha'r ffaith eich bod chi a'ch cyd-lywodraethwyr AALl yn llwyr ymwybodol bod rheoliad 5.2 wedi'i dorri.*

*I ateb eich cwestiynau'n uniongyrchol, ni chodais bryderon am ddefnydd Ysgol Uwchradd Llanfyllin o'i chyllideb ar gyfer trafnidiaeth ysgol oherwydd nad oeddwn i, fel pawb arall, yn amgyffred arwyddocâd posibl adroddiad PWC nes iddo gael ei dynnu i'm sylw yng ngwrandawiad apêl Llywodraethwyr yr AALl.*
*Beth bynnag, roedd adroddiad PWC yn edrych ar hyfywedd ariannol ysgolion uwchradd ym Mhowys ac nid ar drafnidiaeth ysgol a byddwn yn dweud bod cryn dipyn o wahaniaeth rhwng colli rhywbeth a gwybod yn bendant ei fod wedi digwydd.*

*Mae'n ddiddorol i mi eich bod wedi gofyn y cwestiwn hwn i mi tra oeddech yn Llywodraethwr yn yr ysgol a byddech wedi gwybod drwy gymeradwyo'r gyllideb nad oedd yr ysgol yn cydymffurfio â 5.2 polisi'r ysgol. Hefyd, dau Lywodraethwr arall, y naill ar un adeg yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yr ydych yn gwasanaethu arno hefyd. Rwyf yn synnu'n fawr na chodwyd y mater gennych fel eitem i'w thrafod yn y Pwyllgor Archwilio. Roedd aelod o'r Cabinet a gafodd gyfle hefyd i godi'r mater hwn ac ni roddodd wybod i ni ar unrhyw adeg hyd y gwn i yn ein trafodaeth ynglŷn â materion cyllidebol.*

*Rhaid cofio i adroddiad PWC gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2014 ac fe'm hysbyswyd am y toriad yn rheoliad 5.2 y polisi toc cyn Nadolig 2015. Felly, pe bai rhywun wedi codi ar y mater fel rydych yn ei awgrymu byddai'r wybodaeth hon wedi dod i sylw'r gweddill ohonon ni Gynghorwyr nad oeddem yn Llywodraethwyr yn Ysgol Llanfyllin ryw 14 mis ynghynt gan nad oedd yr ysgol wedi cydymffurfio â pholisi ers ei gyflwyno yn 2010.*

*Nid oedd adroddiad PWC yn canolbwyntio ar drafnidiaeth ysgolion.*
*Rwyf yn siŵr i chi hefyd ddarllen a deall yr adroddiad hwn.*

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Gwynfor Thomas a ddylasai fod gan yr Arweinydd ddisgwyliad rhesymol y byddai tor-rheoliad yn cael ei ddwyn i'w sylw, cydnabu'r Arweinydd na chodwyd ar y mater ond na thynnwyd ei sylw ato chwaith gan aelod o'r Cabinet ar y pryd oedd ar gorff llywodraethu'r ysgol. Heriodd y Cynghorydd Mayor y syniad ei fod wedi cuddio'r wybodaeth gan ei fod wir o dan yr argraff bod swyddogion yn ymwybodol bod yr ysgol wedi torri Rheoliad 5.2.

**Busnes Brys**
Cytunodd y Cadeirydd i dderbyn yr eitem ganlynol fel busnes brys gan fod angen rhoi'r trefniadau yn eu lle cyn y cyfarfod nesaf.

<u>Polisi Cyflog</u>
Ceisiodd y Cyfreithiwr i'r Cyngor ollyngiad gan y Cyngor i ganiatáu i swyddog aros yn y drafodaeth ar y polisi cyflog i ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau ac i ail swyddog aros i weithredu'r system gyngres. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir AW Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Sir CJ Gibson-Watt a'i basio gan 48 o bleidleisiau i 0.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| 1. **Yn nhrafodaeth flynyddol y Cyngor ar y Polisi Cyflog, fod y Cyngor Llawn gan hynny yn rhoi gollyngiad i swyddog a** | **I gynnal busnes yn effeithlon.** |

| | |
|---|---|
| **enwebir gan Swyddog Adran 151 fod yn bresennol yn ystod y drafodaeth i ateb unrhyw faterion a godir gan aelodau yn y drafodaeth. Rhoddir gollyngiad hefyd i swyddog fod yn bresennol yn ystod y drafodaeth i redeg y system gyngres.**<br>**2. Mae'r Swyddog Monitro gan hynny wedi'i awdurdodi i newid y Cyfansoddiad i ddod ag Argymhelliad 1 uchod i rym.** | |

**Y Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)**